## Newyddion Diweddaraf Data Cymru – WSLC Chwefror 2023

### Dadansoddi a dirnad

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ddangosfyrddau yn ddiweddar i helpu defnyddwyr i ddeall mwy am rai pynciau penodol, gan gynnwys:

**Dangosfwrdd fforddadwyedd**
Rydym wedi defnyddio data Paycheck CACI i fapio incwm aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a chod post. Ar ben hynny, rydym wedi llunio amcangyfrifon fforddadwyedd o gostau ynni a phrisiau tai lleol.

Rydym wedi rhannu'r offeryn hwn â'r holl gynghorau lleol yng Nghymru. Gall y rhai sydd â thrwydded CACI gyrchu data ar lefel cod post a lefel cyngor lleol. Gall y rhai sydd heb drwydded gyrchu data ar lefel cyngor lleol yn unig.

Ein bwriad yw estyn yr offeryn hwn a byddem yn ddiolchgar am eich adborth. Cysylltwch â ni!

**Dangosfwrdd chwyddiant**

Rydym wedi creu dangosfwrdd sy'n gadael i ddefnyddwyr holi data chwyddiant yn ôl codau SIC ar lefelau cyfanredol (1-digid) a manwl (3-digid). Mae'r offeryn hwn yn ei gwneud yn hawdd gweld pa ddiwydiannau a chynhyrchion sy'n gyrru chwyddiant, ac i ba raddau.

Cymerwch gip yma: https://www.data.cymru/dashboards/inflation-dashboard

**Dangosfwrdd yr iaith Gymraeg**

Rydym wedi defnyddio data o Gyfrifiad 2021 i greu dangosfwrdd sy'n dangos tueddiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl:

- Awdurdod lleol;
- Band oedran
- Math o sgil.

Cymerwch gip yma: https://www.data.cymru/dashboards/welsh-language

**Data'r Cyfrifiad ar gael yn ddwyieithog ar InfoBaseCymru**

Rydym wedi diweddaru ein hofferyn InfoBaseCymru i adlewyrchu cyhoeddiadau diweddaraf y Cyfrifiad, sy'n cynnwys:

- Demograffeg a mudo;
- Ethnigrwydd, hunaniaeth, iaith, a chrefydd;
- Tai;
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith;
- Cyfeiriadedd rhywiol a theithio i'r gwaith;

- Cyn filwyr lluoedd arfog y DU; ac
- Iechyd a gofal cymdeithasol.

Gallwch chi edrych ar y data, ei holi, a'i lawrlwytho'n ddwyieithog o'r offeryn. Cymerwch gip yma: https://www.infobasecymru.net/IAS/themes/census/2021census

**Proffiliau ardal leol**

Rydym wrthi'n cynhyrchu cyfres o broffiliau ardal leol rhyngweithiol a fydd yn caniatáu i chi ddeall mwy am yr ardaloedd lleol yn eich awdurdod lleol chi. Ein gobaith yw y bydd y rhain o ddiddordeb arbennig i'n cydweithwyr sy'n gynghorwyr ledled Cymru a fydd yn gallu chwilio yn ôl ward i ddeall eu hardaloedd lleol.

Mae chwiliadau SYG rhwng LSOA a'r wardiau diweddaraf ar gael nawr felly mae'r gwaith hwn yn cyflymu. Bydd hwn ar gael ar ein gwefan yn ystod y chwarter hwn.

**Rhaglen weminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'**

Rydym ni'n cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen weminarau 'hysbysu ac ysbrydoli' a gafodd ei lansio'n ddiweddar. Mae dwy brif thema i'r rhaglen, sef:

Mae ein gweminarau **Data/Hysbysu** yn cynnig cyflwyniad lefel uchel i bynciau amrywiol sy'n ymwneud â data, ystadegau ac ymchwil.

Mae ein gweminarau **Data/Ysbrydoli** yn dangos enghreifftiau o waith arloesol ac ysbrydoledig rydym ni a/neu gyrff eraill yn ei wneud gyda data.

***Mae gweminarau sydd ar y gweill yn cynnwys:***

- Deall yr Argyfwng Costau Byw gyda data – 12:00 – 13:00 – 9 Chwefror
- Trefi smart am gynghorau smart: defnyddio data i adfywio canol trefi Cymru – 12:00 – 13:00 – 9 Mawrth
- Senedd mewn rhifau: sicrhau bod data seneddol yn hygyrch – 12:00 – 13:00 – 23 Mawrth

I gadw lle, ewch i Tocyn Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cymerwch gip ar ein gwefan: https://www.data.cymru/cym/webinars

Os ydych chi wedi colli unrhyw rai o'n gweminarau, gallwch chi edrych yn ôl ar recordiadau o'r rhai blaenorol yma: https://data.cymru/cym/previous-webinars

I fod ymhlith y cyntaf i glywed am sesiynau'r dyfodol, 'cofrestrwch' i'n rhestr bostio 'Hysbysu ac Ysbrydoli'.

Rydym ni bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, wedi gwneud, neu wrthi'n gwneud rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – llwyddiannus neu beidio.

Yn yr un modd, hoffem ni glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil y dyfodol yr hofffech chi ddysgu mwy amdanyn nhw.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne Draper.

**Meithrin capasiti - rhaglen hyfforddiant yn yr arfaeth…**

Ydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael rhagor o werth ohono? Ydych chi'n ystyried ehangu'ch sgiliau?

Rydym ni wedi datblygu cyfres o gyrsiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

I gyd-fynd â'r hyfforddiant hwn, byddwn hefyd yn rhyddhau cyfres o ganllawiau ar ein gwefan

Cynhaliwn ni 16 o sesiynau am ddim drwy gydol y flwyddyn; un o bob un y chwarter! Y dyddiadau nesaf sydd ar gael yw:

- Ystadegau cryno – 10:00 – 12:00 – 7 Chwefror
- Cyflwyno data – 13:00 - 15:30 – 16 Chwefror
- Dylunio a dadansoddi arolygon – 10:00 – 12:00- 22 Chwefror
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws – 13:00 - 15.30 – 1 Mawrth

Os hoffech chi drafod eich gofynion chi, cysylltwch â Sam Sullivan.

**Cyrsiau hyfforddiant NEWYDD**

Rydym wedi lansio dau gwrs hyfforddiant newydd yn ddiweddar, sef:

**Data 101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data**

Mae'r cwrs yma yn cynnig arweiniad ymarferol i helpu i feithrin sgiliau a hyder wrth ddeall a defnyddio data. Erbyn diwedd y cwrs byddwn chi'n deall:

- beth yw data a sut mae dod o hyd iddo
- y cwestiynau mae angen i chi eu gofyn wneud yn siŵr eich bod chi'n deall data
- rhai technegau sylfaenol ar gyfer defnyddio data.

**Deall a defnyddio data perfformiad**

Mae'r cwrs yma yn cynnig arweiniad ymarferol i helpu i feithrin sgiliau a hyder wrth ddeall, herio a defnyddio data. Erbyn diwedd y cwrs byddwn chi'n deall:

- beth yw data perfformiad a sut mae dod o hyd iddo
- beth mae angen i chi ei ystyried wrth weithio gyda data perfformiad
- sut i ddefnyddio data perfformiad.

Mae'n cael ei argymell, ond nid yw'n hanfodol, eich bod chi'n mynychu ein cwrs hyfforddiant 'Data 101: cyflwyniad i ddeall a defnyddio data' o flaen y cwrs hwn.

Mae gan y ddau gwrs fersiynau penodol i Gynghorwyr yn ogystal â fersiynau wedi'u hanelu at yr holl staff. Mae pob un yn cymryd tua awr a hanner a gellir eu cyflwyno ar-lein neu wyneb yn wyneb ar amser / dyddiad sy'n gyfleus i chi. Cyfyngir y niferoedd i 20 fel arfer.

Am fwy o wybodaeth, gweler ein gwefan.

**Cymunedau Ymarfer**

Wrth i ni symud i mewn i'r flwyddyn galendr newydd, byddwn yn ymgysylltu ag aelodau ein cymunedau i ddarganfod beth maen nhw am ei gael allan o'u haelodaeth a sut rydym ni / y gymuned yn gallu helpu gyda hynny. Yn ogystal, byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gyfleoedd rheolaidd i gwrdd er mwyn caniatáu i gydweithwyr rannu meddyliau, syniadau neu allbynnau.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus hefyd i sefydlu cymunedau ymarfer pellach. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio Cymuned Ymarfer ar gyfer cydweithwyr sy'n ymddiddori mewn data geo-ofodol.

Os credwch y byddech chi ar eich elw o fod yn rhan o'r cymunedau newydd cyffrous hyn, gweler ein tudalen we Cymunedau Ymarfer am fanylion sut mae cymryd rhan.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych chi awgrym am Gymuned Ymarfer, cysylltwch â Róisín Roberts.